



Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

Ysgol Prospects

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

® Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2015

Cyd-destun

Mae Ysgol Prospects yn ysgol arbennig annibynnol i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn darparu addysg i bobl ifanc sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni, ynghyd â chynnig lleoliadau dydd.

Mae gan yr ysgol 'gontinwmm o ddarpariaeth'. Caiff disgyblion eu hasesu adeg mynediad a'u gosod yn un o'r gwahanol setiau yn ôl eu hanghenion unigol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys tiwtora gartref yn y cartrefi plant, gyda chymorth yr athrawon, a darpariaeth annog neu amserlen lawn o weithgareddau addysgol yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 16 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Daw'r rhain o awdurdodau yn Lloegr yn bennaf, gydag ychydig ddisgyblion o awdurdodau Cymru. Mae lleoliadau preswyl 52 wythnos gan yr holl ddisgyblion ac nid oes unrhyw ddisgyblion dydd ar hyn o bryd. Mae statws 'plant sy'n derbyn gofal' gan bob un o'r disgyblion ac mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan 11 disgybl.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi pennaeth newydd.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Dyma gryfderau'r ysgol:

- Yn y gwersi a arsylwyd, roedd y disgyblion wedi'u symbylu, yn dangos diddordeb ac yn gwrtais
- Roedd y disgyblion yn trafod y pwnc mewn modd aeddfed ac ystyriol
- Mae'r arweinyddiaeth yn ymroi i sicrhau bod yr ysgol yn gwella
- Mae'r dogfennau yn yr ysgol yn glir ac wedi'u trefnu'n dda
- Caiff yr ysgol ei strwythuro'n effeithiol mewn pum maes darpariaeth gwahanol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion
- Lle y bo'n briodol, mae'r ysgol yn darparu cymorth i ddisgyblion fynd yn ôl i ddarpariaeth brif ffrwd

Meysydd i'w datblygu

Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol wrth fynd i'r afael ag argymhellion ymweliad monitro 2014
- Mae presenoldeb disgyblion a'r gwaith o gofnodi presenoldeb yn destun pryder
- Nid yw medrau wedi'u gwreiddio ar draws y cwricwlwm
- Nid yw'r ysgol yn mynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigon da

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003
- A2 Cydweithio'n agos â staff gofal i wella presenoldeb disgyblion
- A3 Gwella'r gwaith o gydlynu medrau ar draws y cwricwlwm
- A4 Sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol yr holl ddisgyblion yn cael eu bodloni'n llwyddiannus

Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

Argymhelliad 1: Parhau i ddatblygu polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Megis dechrau y mae cynllunio ar gyfer medrau ac nid yw'n rhan annatod o gynllunio ar draws y cwricwlwm eto. Nid yw cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn rhoi ffocws digon cadarn ar fedrau llythrennedd a rhifedd.

Mae athrawon pwnc wedi dechrau cydweithio i sicrhau bod disgyblion yn gallu trosglwyddo medrau yn llwyddiannus o un maes yn y cwricwlwm i un arall. Mae cynlluniau ymyrraeth llythrennedd a rhifedd a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan leiafrif o ddisgyblion.

Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau llythrennedd a rhifedd penodol sy'n dangos camau cynnydd bach y gellir eu hadolygu'n effeithiol ar draws yr ysgol

Ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Nid yw'r rhan fwyaf o gynlluniau addysg unigol (CAUau) yn cynnwys targedau academaidd penodol a mesuradwy ac nid ydynt yn mynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn ddigon da. Er bod y targedau wedi'u seilio'n fras ar amcanion o'r datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'r pwyslais ar ymddygiad yn bennaf. Mae'r adran ar ddeilliannau bron bob amser yn canolbwyntio ar lefel yr ymgysylltu yn hytrach na deilliannau academaidd. O ganlyniad, ni chaiff CAUau eu defnyddio fel dogfennau gwaith effeithiol i lywio cynllunio at y dyfodol.

Argymhelliad 3: Ehangu'r ystod cyrsiau achrededig i fodloni anghenion newidiol ac amrywiol y disgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae disgyblion wedi ennill amrywiaeth o achredadau, gan gynnwys TGAU mewn celf a dylunio, a chymwysterau lefel mynediad mewn Saesneg, mathemateg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gwyddoniaeth. Eleni, fe wnaeth yr ysgol ehangu cyfleoedd i ddisgyblion trwy gynnig dysgu achrededig i ychydig ddisgyblion mewn datblygiad plant ac addysg gorfforol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r argymhelliad hwn ac mae'r ysgol yn cydnabod yn briodol bod hwn yn faes i'w ddatblygu o hyd.

Nid yw'r ysgol wedi llunio cysylltiadau effeithiol â darparwyr eraill a all gynnig profiadau dysgu galwedigaethol, wedi'u hachredu.

Nid yw staff yn yr ysgol yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu harbenigedd mewn cyflwyno ystod ehangach o achrediadau.

Argymhelliad 4: Datblygu'r adroddiad hunanarfarnu ymhellach fel dogfen gynhwysfawr ac arfarnol, sy'n nodi meysydd i'w gwella yn glir, gyda ffocws ar godi safonau disgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Paratôdd y pennaeth adroddiad hunanarfarnu cyn yr ymweliad monitro ac mae'n dilyn fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Defnyddiodd y pennaeth arweiniad Estyn i gynorthwyo ag ysgrifennu'r adroddiad.

Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn arfarnu'n ddigon cywir rai meysydd pwysig y mae angen eu datblygu. Er enghraifft, mae data ynghylch presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion yn wallus. Nid yw'r adroddiad yn nodi problemau'n ymwneud ag amseroldeb ac ymgysylltiad mewn gwersi. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn cynllunio sut i fynd i'r afael â'r diffygion difrifol hyn yn ddigon effeithiol.

Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. I gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- gadw cofnodion ysgrifenedig priodol o gosbau a roddwyd i ddisgyblion am dramgwyddau disgyblu difrifol [3(8)]
- cynnal cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol	Ysgol Prospects
Rhif yr ysgol	665/6039
Diben yr ymweliad	Arolygiad monitro blynyddol
Dyddiad yr ymweliad	22/06/2015
Perchennog	Prospects for Young People Ltd
Staff	5 athro, 1 tiwtor, 4 cynorthwydd cymorth dysgu, 1 swyddog arholi/swyddog gweinyddol rhan-amser
Nifer y disgyblion	16
Darpariaeth	Dydd
Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
Arolygiad Adran 163 diwethaf	27/02/2012
Arolygiad monitro blynyddol diwethaf	29/01/2014
Arolygiad diwethaf gan AGGCC	Dd/B

Gwybodaeth am y tîm

Mrs Elizabeth Ann Dackevych	Arolygydd Cofnodol
Mrs Sw Roberts	Arolygydd Tîm